



Y fferm gefnfor adfywiol gyntaf yn dod â chymunedau at ei gilydd yng Nghymru

Câr-y-Môr yw'r fferm gefnfor adfywiol gyntaf yng Nghymru lle caiff gwymon amldroffig ei dyfu a lle caiff pysgod cregyn eu cynhyrchu. Fe'i rhoddwyd ar waith yn 2019 ac fe'i sefydlwyd gan y teulu Haines.

Y nod yw gwella amgylchedd yr arfordir trwy gynyddu bioamrywiaeth a lleihau lefelau asidedd yn y dŵr, yn ogystal â gwella llesiant pobl yr ardal trwy greu cyfleoedd swyddi a thrwy ddarparu ffynhonnell fwyd ddiogel a chynaliadwy. Maen nhw wedi mabwysiadu dull ffermio heb ychwanegon – golyga hyn na ddefnyddir gwrteithiau, plaladdwyr na dŵr croyw.

Cymdeithas budd cymunedol yw Câr-y-Môr, ac mae'n cynnwys mwy na 250 o aelodau sy'n berchen yn gyfartal ar y busnes. Nid gwneud yw elw yw'r nod, ond grymuso cymunedau i ddod o hyd i'w gilydd drachefn a gwella ar raddfa amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'r gymuned yn cynnwys rhwydwaith anhygoel o wahanol unigolion. Maen nhw'n gweithio mewn ysgolion lleol trwy gyfrwng trefniadau allgymorth addysgol, gyda physgotwyr lleol, a hyd yn oed cyn belled â Llundain ac Ewrop. Hyd yn hyn, mae ganddyn nhw 14 o weithwyr amser llawn drwy gydol y flwyddyn, a hefyd mae gwirfoddolwyr rheolaidd yn cynnig help llaw.

Yn ddiweddar, cafodd Câr-y-Môr grant er mwyn i'r busnes allu adeiladu purfa wymon, gan ei alluogi i buro gwymon a'i droi'n ffilamentau a ddefnyddir mewn bioblastigau ac fel

*Yn y pen draw,
rydyn ni'n
troi at natur i
wella'r argyfwng
amgylcheddol a
chymdeithasol sydd
ohoni trwy ddod â
chymunedau at ei
gilydd unwaith eto.*

biosymbylwyr (a ddefnyddir yn lle gwrteithiau synthetig). Mae gwymon yn cynnig bywyd cylchol anhygoel.

Mae Câr-y-Môr yn ein hatgoffa bod "popeth a roddwn ar y tir yn diweddu ei oes yn y môr, a bod popeth rydyn ni ei angen ar y tir yn deillio o'r môr, felly yn amlwg fe ddylen ni ddefnyddio cynnyrch o'r môr i ategu'r hyn a wnawn ar y tir." Mae'r sefydliad wedi ystyried y berthynas rhwng amaethyddiaeth a dyframaeth, yn hytrach na gosod y naill yn erbyn y llall.

**CÂR
y
MÔR**

